# Polisi Parcio

**Rhif y Fersiwn: 3**
**Adolygiad Nesaf: Gorffennaf 2024**
**Adolygedig: Hydref 2023**

**PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD - Gwasanaethau Eiddo a Gwasanaethau Masnachol**

**RHEOLIADAU A PHOLISI PARCIO**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn ar gyfer pawb sy'n defnyddio ffyrdd a chyfleusterau parcio Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Met Caerdydd). Mae wedi cael ei ddiwygio a'i ddiweddaru i ystyried newidiadau i'r cynllun parcio ceir a reolir. Cyflwynwyd y cynllun ar 1 Tachwedd 2006. Cafodd yr wybodaeth ddiweddaraf ei chyflwyno wedi hynny. Dylid defnyddio'r polisi hwn ar y cyd â Chanllawiau Cofrestru Trwyddedau Prifysgol Caerdydd, sydd ar gael yn https://www.metcaerdydd.ac.uk/about/campuses/Pages/Managed-Parking.aspx-

## 2. Cyffredinol

Bwriad y polisi parcio ceir a reolir yw darparu system deg ac unffurf ar gyfer gweinyddu amwynderau parcio ceir sy'n gyson â blaenoriaethau corfforaethol, ac sy'n gyson â'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol; yn ogystal â dymuno cadw'r cyfleuster mor ddiogel a hwylus â phosib, er budd pob defnyddiwr.

**Mae'r polisi'n cydnabod y bydd y galw am fannau parcio bob amser yn fwy na'r cyflenwad. Mae'r polisi'n cydnabod hefyd mai'r unig ddull ymarferol yw blaenoriaethu defnydd o'r mannau parcio hyn ochr yn ochr â mesurau rheoli a gorfodi ategol, ynghyd â datblygu gweithredol a hyrwyddo dewisiadau teithio amgen.**

Yn yr un modd â phob agwedd ar faterion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol, mae Deoniaid Ysgolion a Phenaethiaid Adrannau yn gyfrifol am sicrhau bod aelodau o'u staff a'u myfyrwyr yn cadw at y polisi hwn, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## 3. Rheoli Meysydd Parcio

Mae Met Caerdydd wedi cyflogi Saba Park Services UK Ltd. i reoli'r meysydd parcio ar ran y Brifysgol. Bydd Saba Park yn gwneud yn siŵr y bydd aelodau staff yn bresennol yn y meysydd pacio ac o'u hamgylch, a byddant yn cymryd camau cychwynnol ynghylch materion diogelwch. Ar ben hynny, bydd Saba Park yn monitro'r ddarpariaeth o ran meysydd parcio, ac yn rheoli ac yn gorfodi'r rheoliadau hyn.

Drwy gydol y ddogfen hon, mae'r cyfrifoldeb dros weithredu'r Rheoliadau a'r Gweithdrefnau wedi'i awdurdodi i **Saba Park Services UK Ltd.** Bydd Swyddogion Patrol Saba Park yn darparu cyngor a chymorth lle bo hynny'n bosibl, ac yn gorfodi pan fydd angen. Dylid cysylltu â staff Saba Park ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â pharcio a rheoli traffig. Bydd y contract gyda Saba Park Services UK Ltd yn cael ei reoli ar ran Met Caerdydd gan dimau The Studio a Derbynfa'r Campws. Mae'r manylion cyswllt ar gael yn https://www.metcaerdydd.ac.uk/about/campuses/Pages/Managed-Parking.aspx-

## 4. Cofrestru a Thâl Parcio

Mae Prifysgol Caerdydd yn rheoli ac yn berchen ar dros 1200 o feysydd parcio ar draws dau gampws Academaidd, un campws Preswyl, a dau safle gweinyddol.

| | |
|---|---|
| ***Campysau Academaidd*** | |
| Llandaf | 449 |
| Cyncoed | 686 |
| ***Campws Preswyl*** | |
| Plas Gwyn | 39 |
| ***Safleoedd Gweinyddol*** | |
| Tŷ Alexander | 53 |
| CBAC | 24 |

Fel amod o ddefnyddio'r ffyrdd a'r meysydd parcio, bydd yn ofynnol i ddefnyddwyr awdurdodedig gofrestru gyda Gwasanaethau Masnachol, ac mae'n rhaid iddynt gael trwydded ddilys. Mae ffurflenni cais ar gael yn Parking Permit Ver2 - PowerApps neu ar ein porth staff. Bydd defnyddwyr sy'n parcio ar Gampws Llandaf, Tŷ Alexander, CBAC neu Blas Gwyn ac sydd heb drwydded yn destun Hysbysiad Tâl Parcio.

**Commented [OV1]:** Required new permit link

Bydd defnyddwyr cymwys naill ai'n cael:-

- Trwydded parcio a fydd yn cael ei ddiddymu o'ch cyflog

NEU'N CAEL

- Trwydded Talu ac Arddangos. Rhaid dangos taliad o'r peiriannau Talu ac Arddangos neu drwy ddefnyddio ap ffôn symudol Saba Park (sydd ar gael ar Apple App Store a Google Play Store).

**a. Campws Llandaf - Cyfyngiadau Ffiniau**

Mae cyfyngiad parcio ychwanegol ar gyfer staff ar gampws Llandaf ac sy'n byw o fewn radiws o 2 filltir i'r campws - gweler atodiad A i gael y manylion llawn. Mae'r cyfyngiad hwn yn berthnasol yn ystod yr wythnos rhwng 8am a 4pm (Adegau Prysur). Nid yw'r cyfyngiad ychwanegol yn effeithio ar geisiadau am drwyddedau ar gyfer campysau eraill.

**b. Gwybodaeth a Cheisiadau am Drwydded**

**Staff**

Gellir dod o hyd i ganllawiau a ffurflenni cais am drwydded ar Borth Staff Met Caerdydd. Bydd manylion y trefniadau i wneud cais am drwydded ar gyfer staff newydd yn cael eu cynnwys yn y pecyn cychwynnol i weithwyr newydd.

Bydd Gwasanaethau Masnachol a Gwasanaethau Pobl yn cysylltu ac yn rhannu data i gefnogi anghenion y cynllun. Bydd unrhyw newidiadau i gofnodion unigolyn[1] sy'n newid hawl unigolyn i barcio yn cael eu hanfon ymlaen at Reolwyr y Maes Parcio yn rheolaidd, a byddant yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun parcio yn ystod y mis canlynol.

Mae trwydded ragdaledig ar gyfradd is ar gael i staff sy'n gweithio llai na 0.76FTE. Rhaid i'r staff hynny sydd â thrwydded ar gyfradd is (llai na 0.76 FTE) anfon e-bost i thestudio@cardiffmet.ac.uk ar unwaith os bydd eu FTE yn uwch na 0.75 (bydd angen talu unrhyw falans sy'n ddyledus ac sy'n gysylltiedig â'r newid mewn trwydded).

Gall methiant i gydymffurfio a'r amodau arwain at gamau disgyblu.

[1] Naill ai i wybodaeth bersonol neu i ddyletswyddau corfforaethol

**c. Diogelu Data**

Bydd data personol a gesglir gan y Gwasanaethau Pobl yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cofrestru yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Bydd y data a gyflenwir yn cael ei ddefnyddio i alluogi'r canlynol:

- Cadarnhad o'r data a ddarparwyd wrth gofrestru am drwydded.
- Adnabod perchnogion cerbydau sy'n mynd yn groes i'r Polisi hwn.
- Cysylltu â pherchnogion cerbydau lle bo angen.

Mewn amgylchiadau priodol, gellir trosglwyddo'r manylion hyn i'r asiantaethau perthnasol.

**5. Dulliau talu**

Mae dau ddull talu ar gael. Mae'r rhain yn cael eu Talu'n Fisol (Didynnu Cyflog) a thrwy Dalu ac Arddangos. Darperir pob trwydded yn ddigidol, ac ni ddarperir copi caled.

**Dewis 1 – Trwydded yn cael ei dalu'n fisol**

Y dewis hwn yw'r un mwyaf manteisiol i staff ar y campws.

Mae trwydded talu ymlaen llaw yn rhoi'r hawl i chi barcio ar unrhyw gampws, ac eithrio ar gyfer 'parthau' dynodedig fel Mannau Parcio ar Gadw neu faes parcio'r Clinig Podiatreg. Darperir y trwyddedau'n ddigidol, ac ni ddarperir copi caled.

Dim ond am fis cyfan y darperir trwyddedau, ac maent yn ddilys o'r mis cyntaf ar ôl gwneud cais.

**Dewis 2 - Talu ac Arddangos**

Mae'r trwydded Talu ac Arddangos yn rhoi'r hawl i'r deiliad barcio ar unrhyw gampws, ac eithrio ar gyfer 'parthau' dynodedig fel Rhannu Car, Mannau Parcio ar Gadw neu faes parcio'r Clinig Podiatreg. Rhaid gwneud Taliad dilys ar Ap Symudol Saba. Mae copi caled o'r tocynnau ar gael o unrhyw beiriant Talu ac Arddangos ar draws y campws, a rhaid eu harddangos yn glir yn eich cerbyd.

Dyma fydd y Tariff Talu ac Arddangos:

| | |
|---|---|
| **Cyfnodau Brig:** | **Dydd Llun i ddydd Gwener 8.00am – 4.00pm**<br>£2 y dydd<br>£1 am bob 4 awr a hanner<br>£8.00 Tocyn wythnos<br>£16.00 Tocyn pythefnos<br>£24.00 Tocyn misol |
| **Cyfnodau Tawel:** | **Nosweithiau ar ôl 4.00pm - mae'r tocynnau'n dod i ben am 8.00am ac ar Benwythnosau**<br>50p |
| ***Sylwer*** | *Mae tocynnau diwrnod yn ddilys am 24 awr ar ôl eu prynu.* |

Bydd y cyfraddau uchod yn berthnasol i holl ddefnyddwyr meysydd parcio, h.y. staff, myfyrwyr ac ymwelwyr.

**Gyrwyr Beiciau Modur**

Gall gyrwyr beiciau modur barcio am ddim ar yr amod bod yr ardaloedd dynodedig yn cael eu defnyddio. Os bydd gyrrwr beic modur yn dymuno parcio mewn man parcio cyffredinol, bydd y tariff safonol yn berthnasol a bydd rhaid talu. Mae amodau'r drwydded yn berthnasol.

**6. Talu Ffioedd**

**a. Staff**

Gall staff ddewis talu'n fisol am drwydded parcio am ffi o £20.00 y mis (0.76 FTE ac uwch) neu £15.00 y mis (o dan 0.76 FTE), a fydd yn cael ei thalu drwy dynnu'r ffi o'ch cyflog.

Fel arall, gall staff ddewis Talu ac Arddangos ar y cyfraddau a nodir.

**b. Myfyrwyr**

Anogir myfyrwyr i ddefnyddio dewisiadau teithio cynaliadwy. Darperir yr wybodaeth hon yn y ddogfen Ceir, parcio a theithio o amgylch Caerdydd.

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y caniateir i rai myfyrwyr brynu trwydded parcio flynyddol. Rhoddir trwyddedau ar sail yr angen a'r capasiti sydd ar gael.

Os caniateir i fyfyrwyr gael parcio, rhaid iddynt wneud taliad Talu ac Arddangos neu dalu drwy Ap Saba ar y cyfraddau a ddangosir.

**c. Ymwelwyr – Cyncoed**

Mae dau brif gategori i ymwelwyr Met Caerdydd: -

- Ymwelwyr dyddiol rheolaidd ac ad-hoc, sy'n gorfod Talu ac Arddangos ar y cyfraddau a ddangosir uchod.
- Gwesteion / Ymwelwyr yn cael eu gwahodd gan Ysgolion ac Unedau sy'n defnyddio mannau parcio ar gadw. Gellir archebu'r mannau hyn drwy'r safle, a byddant yn cael eu hailwefru ar y gyfradd briodol uchod i'r adran sy'n eu cynnal bob mis.

**ch. Ymwelwyr – Llandaf, Plas Gwyn a Thŷ Alexander**

Rhaid i bob unigolyn sy'n dymuno parcio arddangos trwydded neu wirio eu Rhif Cofrestru Cerbyd yn nerbynfa'r campws. Felly, bydd angen i unrhyw ymwelwyr ad-hoc sydd heb le wedi'i gadw iddynt fynd i dderbynfa'r campws i gofrestru. Rhaid gwneud taliad dilys.

**d. Contractwyr**

Rhaid i gontractwyr awdurdodedig sy'n gweithio'n rheolaidd ar safleoedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd gofrestru gyda The Studio a meddu ar drwydded ddilys a thalu. Gellir talu drwy ddefnyddio ap Saba Park neu beiriannau talu ac arddangos.

Bydd pob cerbyd yn cael ei barcio yn unol â'r rheoliadau.

Gellir talu am fwy nag un cerbyd gyda cherdyn credyd am uchafswm o 3 mis yn The Studio (Campws Llandaf neu Gyncoed).

**dd. Parcio Hygyrch – Bathodyn Glas (a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol)**

Ar bob campws, mae mannau parcio dynodedig ar gyfer gyrwyr sy'n gymwys ar gyfer parcio hygyrch. Os bydd y galw am y mannau hyn yn fwy na'r nifer sydd ar gael, bydd staff y Dderbynfa yn gwneud trefniadau lleol - lle bo hynny'n bosibl - er hwylustod i'r bobl sydd ag anableddau. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd fel y gellir darparu ar gyfer newidiadau yn nifer y staff a/neu fyfyrwyr ag anableddau. Mae deiliaid sy'n arddangos eu Bathodyn Glas wedi'u heithrio rhag gorfod talu. Gall The Studio ofyn am gopi o'r Bathodyn Glas.

**e. Pas Symudedd Dros Dro ar gyfer staff a myfyrwyr**

Dylai staff a myfyrwyr sydd â phroblemau symudedd dros dro wneud cais ysgrifenedig i Carparkappeals@cardiffmet.ac.uk am bas cyfnod penodol[2] . Mae'r trwyddedau hyn yn ddilys i'w defnyddio mewn mannau parcio dynodedig ar gyfer gyrwyr ag anableddau. Codir y prisiau safonol ar y cyfraddau uchod.

**7. Atebolrwydd Perchnogion**

Y perchennog sy'n gwbl gyfrifol am ei gerbyd pan mae'n gyrru ac yn parcio ar eiddo Met Caerdydd.

**8. Trwyddedau Gyrru, Tystysgrifau MOT, Treth, Yswiriant a Gyrru'n Ddiogel**

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl i bob cerbyd sy'n dod i mewn i eiddo Met Caerdydd gael ei yrru yn unol â chyfreithiau sy'n berthnasol i'r briffordd gyhoeddus:-

- Rhaid i yrwyr fod â thrwydded yrru gyfredol.
- Rhaid i bob cerbyd feddu ar Dystysgrif MOT gyfredol (lle bo hynny'n briodol), treth ac yswiriant.
- Rhaid gyrru pob cerbyd yn unol â Rheolau'r Ffordd Fawr, gan gynnwys cydymffurfio â marciau ac arwyddion ar y ffordd ac yn y maes parcio.
- Rhaid gyrru pob cerbyd ar gyflymder sy'n briodol i'r amgylchiadau, ac ni ddylid gyrru'n gyflymach na 5 mya ar eiddo Met Caerdydd.

**9. Amodau Trwydded**

Mae'r wybodaeth ganlynol yn darparu telerau gweithredol mewn perthynas â system drwyddedau Prifysgol Metropolitan Caerdydd:

Rhoddir un drwydded yn unig i bob ymgeisydd. Gellir cynnwys uchafswm o 2 rif cofrestru cerbyd (staff) ac 1 rhif cofrestru cerbyd (myfyrwyr a chontractwyr) ar gyfer pob trwydded.

Mae'r drwydded yn galluogi un cerbyd i barcio ar y campws ar yr un pryd.

[2] Mae'n bosibl y bydd angen gwybodaeth gan Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer staff, a gwybodaeth gan y Gwasanaethau i Fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr

**Ad-daliadau**
Fel arfer, ni chaniateir ad-daliadau o dan y cynllun hwn.

**Newidiadau i rif cofrestru'r cerbyd**

Gellir gwneud unrhyw newidiadau i rifau cofrestru cerbydau drwy anfon e-bost i thestudio@cardiffmet.ac.uk. Gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu 24 awr i ddiweddaru eich cofrestriad.

**'Optio allan'**

Gall deiliaid trwyddedau ddewis peidio â bod yn rhan o'r cynllun didynnu cyflog. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl ail-ymuno â'r cynllun am gyfnod o 12 mis, oni bai fod amgylchiadau eithriadol[3].

Canslo eich trwydded

Os bydd angen i ddeiliad trwydded ganslo ei drwydded o dan yr amodau uchod, gall wneud hynny drwy gysylltu â thestudio@cardiffmet.ac.uk.

**10. Rheoliadau Parcio Ceir**

**a.** Mae'n ofynnol i gerbydau staff sydd wedi'u parcio ym meysydd parcio Prifysgol Metropolitan Caerdydd gael trwydded parcio fisol ddilys, trwydded Talu ac Arddangos gyda thaliad dilys, neu arddangos bathodyn swyddogol y cynllun parcio i bobl ag anableddau gan yr Awdurdod Lleol

**b.** Rhaid i'r cerbydau gael eu parcio'n gall ac yn ddiogel er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r maes parcio.

**c.** Dim ond mewn mannau parcio dynodedig y gellir parcio eich cerbyd. Sylwch fod Ardaloedd Cyfyngedig ar rai safleoedd lle mae angen dull ychwanegol ar eu cyfer o ran awdurdodi parcio. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):-

| | |
|---|---|
| Podiatreg/Therapi Lleferydd | Rhaid cael cofrestriad Podiatreg neu Fathodyn Glas |
| Man Parcio ar Gadw i Ymwelwyr | Nodir drwy arddangos |
| Mannau Gollwng am 20 munud | Nodir drwy arddangos |
| Bws, bws mini | Nodir drwy arddangos |

**d.** Ni chaniateir parcio ar linellau melyn dwbl, palmentydd i gerddwyr a phalmentydd â llinellau, na lleiniau glaswellt.

**e.** Ni ddylid parcio cerbydau ar unrhyw ffyrdd a fydd yn rhwystro mynediad i gerbydau gwasanaethau brys, ac eithrio lle mae marciau ar y ffordd yn nodi'n glir fod yr ardal honno'n fan parcio.

**f.** Os bydd cerbyd wedi cael ei barcio mewn modd sy'n peryglu diogelwch myfyrwyr, staff, ymwelwyr neu'r safle, mae'n bosibl y bydd yn cael ei dowio oddi yno. Bydd y perchennog/gyrrwr yn gyfrifol am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â symud y cerbyd.

[3] Amgylchiadau eithriadol fel y pennir gan y deiliad swydd dynodedig sy'n gyfrifol am Gynllun Rheoli Meysydd Parcio Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

**g.** Mae llefydd parcio ar gyfer pobl ag anableddau wedi'u cyfyngu i'r bobl sydd â Bathodyn Glas cyfredol a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Lleol, neu i'r bobl sydd â thocyn dros dro a roddwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

**h.** Mae mannau parcio ar gadw i ymwelwyr wedi'u cyfyngu i ymwelwyr yn unig.

**i.** Gall torri unrhyw un o'r rheoliadau parcio hyn arwain at Hysbysiad Tâl Parcio i'r cerbyd. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cadw'r hawl i ddelio â thorri rheolau difrifol neu barhaus drwy'r weithdrefn disgyblu staff neu fyfyrwyr briodol.

**11. Hysbysiad Tâl Parcio**

Mae Hysbysiad Tâl Parcio yn gyhuddiad a osodir ar yrrwr / perchennog cofrestredig cerbyd am dorri rheoliadau parcio ceir. Codir ffi o ddeugain punt (£40.00), a dylid ei thalu o fewn 28 diwrnod. Os caiff y ffi ei thalu o fewn pedwar diwrnod ar ddeg (pythefnos) i'r hysbysiad, codir ffi ostyngol o un ar bymtheg o bunnoedd (£16.00).

Os na fydd perchennog y cerbyd yn talu'r Hysbysiad Tâl Parcio o fewn y cyfnod amser penodol, dylai fod yn ymwybodol y bod modd cael ei enw a'i gyfeiriad oddi wrth DVLA gan asiantaeth adennill dyledion, a chysylltir â hwy yn unol â hynny. Ar hyn o bryd, gellir codi ffi weinyddol ychwanegol, a gellir ceisio Gorchymyn Llys Sirol. Bydd Hysbysiadau Tâl Parcio yn cael eu cyhoeddi o fewn yr amgylchiadau canlynol: -

1. Parcio heb arddangos tocyn dilys.
2. Methu dangos trwydded ddilys.
3. Methu dangos tocyn dilys mewn parth dynodedig.
4. Os yw'r cerbyd wedi cael ei barcio mewn man heb ei awdurdodi, h.y. y tu allan i fan parcio sydd wedi'i farcio'n glir e.e. llinellau melyn neu ardal â chroeslinellau
5. Os yw'r cerbyd yn achosi rhwystr neu anghyfleustra.
6. Os yw'r cerbyd wedi cael ei barcio mewn man parcio anabl heb arddangos bathodyn cyfredol a roddir i bobl ag anableddau.
7. Os nad yw'r cerbyd wedi cael ei barcio o fewn y llinellau dynodedig.

**Apeliadau Hysbysiad Tâl Parcio**

Gellir gwneud apeliadau Hysbysiad Tâl Parcio ar-lein yn www.appeals.sabaparking.co.uk, neu drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad isod o fewn 28 diwrnod i'w darparu.

Saba Park Services UK Limited
Canolfan Cymorth i Gwsmeriaid
BLWCH POST 2466
Watford
WD18 1XH

**12. Gadawiad**

Mae hyn yn cynnwys unrhyw gerbyd sydd wedi cael ei adael ar y Campws am gyfnod, ac sydd ym marn yr Adran Gwasanaethau Eiddo yn rhoi achos i amau ei fod wedi cael ei adael. Byddai'r cerbyd yn destun proses ymchwilio fanwl i ganfod pwy yw'r perchennog cywir. Ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad, gellir gwneud penderfyniad i symud y cerbyd o'r Campws a'i waredu'n briodol.

Y perchennog/gyrrwr fydd yn gyfrifol am y gost i waredu'r cerbyd, a bydd yn cael ei anfonebu yn unol â hynny.

**13. Parcio i Fyfyrwyr Preswyl**

Mae lleoedd parcio **cyfyngedig** wedi'u neilltuo ar gyfer myfyrwyr preswyl. Dylai myfyrwyr preswyl osgoi dod â'u car i'r campws oni bai bod cais arbennig am drwydded wedi'i dderbyn ymlaen llaw. Dim ond mewn ardaloedd dynodedig y bydd deiliaid trwyddedau yn cael parcio.

**14. Ymholiadau / Cwynion**

Dylid atgyfeirio unrhyw ymholiadau neu gwynion ynghylch y cynllun hwn a reolir at:

Saba Park Services UK Limited
Canolfan Cefnogi Busnes
Oak House Reeds Crescent
Watford
Swydd Hertford
WD24 4QP

Ffôn: 01908 223500

Gellir cysylltu â rheolwyr meysydd parcio ym Met Caerdydd yn:

The Studio
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd
CF5 2YB
Ffôn: 029 2041 6161
E-bost: thestudio@cardiffmet.ac.uk neu carparkappeals@cardiffmet.ac.uk

Mae rhagor o fanylion cyswllt ar gael yn www.metcaerdydd.ac.uk/about/campuses/Pages/Managed-Parking.aspx

**Commented [OV2]:** Info out of date - email LP on 6/9 to request update to links on Met Central and Application

**DYDDIAD ADOLYGU: Gorffennaf 2024**

**ATODIAD A – CYFYNGIAD PARCIO LLANDAF**

Mae llefydd parcio yn Llandaf yn brin iawn. Felly, mae cyfyngiad ar waith ar gyfer y ffiniau a ddiffinnir isod.

Ni fydd trwydded yn cael ei rhoi i unrhyw unigolyn lle mai campws Llandaf yw ei 'brif safle', ac sy'n byw o fewn y ffiniau a nodir. Gofynnir am gadarnhad o'r prif gampws a'r cyfeiriad cartref gan adran Adnoddau Dynol Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn unol â'r Polisi Diogelu Data. Nid yw'r newid hwn yn berthnasol i ddefnyddwyr anabl a defnyddwyr anabl dros dro, a ddylai barhau i barcio yn y ffordd arferol.

**a.** Cyfyngiadau Ffiniau – Unrhyw unigolion lle mae eu cyfeiriad preswyl o fewn y sectorau cod post isod:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CF10 1 | CF11 6 | CF14 1 | CF24 4 | CF5 1 |
| CF10 3 | CF11 9 | CF14 2 | | CF5 2 |
| | | CF14 3 | | CF5 3 |
| | | CF14 4 | | |
| | | | | |
| | | | | |

**b.** Gall defnyddwyr sy'n byw o fewn y ffin hon apelio yn erbyn y cyfyngiad hwn. Rhaid cyflwyno pob apêl yn ysgrifenedig i Carparkappeals@cardiffmet.ac.uk. Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol fydd yn cadeirio'r panel apeliadau.